Adroddiad Arholwyr Lefel 2

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Lefel 2

Haf 2026

© WJEC CBAC Ltd.2026



Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny. [1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

Cefnogaeth bellach

Dogfen	Disgrifiad	Cyswllt
Dysgu Proffesiynol / DPP	Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig.	https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/
Cyn-bapurau	Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad.	Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC
Gwybodaeth am ffiniau graddau	Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned. Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau.	Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk)

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.2026

Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau	Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholi ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.	Porth CBAC
Adnoddau Ystafell Ddosbarth	Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu.	https://adnoddau.cbac.co.uk/
Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol	Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus.	Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC.
Arholi gyda CBAC.	Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu.	Arholi gyda ni | CBAC

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb gweithredol	5
Uned 216	7
Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol	12

© WJEC CBAC Ltd.2026

Crynodeb Gweithredol

Roedd asesiad Uned 216 Haf 2026 yn seiliedig ar y fanyleb newydd a gyflwynwyd gyntaf yng nghyfres Gaeaf 2026. Dyma'r ail gyfres arholiadau i ddefnyddio'r fformat astudiaeth achos ddiwygiedig, gyda chwestiynau bellach yn canolbwyntio ar ddau ddeilliant dysgu yn unig.
Defnyddiwyd amrywiaeth o ferfau gorchmynnol a mathau o gwestiynau, yn gyson â chyfresi asesu blaenorol. Roedd y strwythur asesu yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad at farciau ar draws ystod lawn y papur. Roedd yn galluogi arholwyr i asesu gwahanol lefelau o wybodaeth a dealltwriaeth yn effeithiol, gyda chwestiynau tariff is yn defnyddio berfau gorchmynnol syml i gefnogi cyflawniad dysgwyr. Defnyddiwyd yr ystod lawn o farciau, gyda marciau wedi'u dyfarnu ar draws pob band a chyfran sylweddol o ddysgwyr yn ennill marciau yn y bandiau uwch.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi ymgysylltu'n dda â'r astudiaeth achos ac yn rhoi cynnig ar bob cwestiwn. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebion yn cynnwys adrannau heb eu hateb neu'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r testun sy'n cael ei asesu.

Dangoswyd lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth; fodd bynnag, roedd rhai rhannau o'r papur yn ymddangos yn heriol. Fel yn y cyfresi blaenorol, trafodwyd y cynllun marcio gan arholwyr yn y gynhadledd a thrwy ddefnyddio'r egwyddor marcio cadarnhaol, gwnaed addasiadau gan ganiatáu dull teg lle gellid rhoi marciau i bob cynnig cywir yn unol â'r wybodaeth a'r dealltwriaeth rhannol sy'n cael eu dangos.

Mae'r ddealltwriaeth o ferfau gorchmynnol yn cynyddu o gyfres i gyfres gyda rhai dysgwyr bellach yn gallu cael mynediad at farciau uwch drwy ddangos dealltwriaeth dda a chymhwyso'r ystod o ferfau a ddefnyddir. Fodd bynnag, roedd rhai dysgwyr yn dal i ddangos diffyg dealltwriaeth o ferfau gorchmynnol tariff uwch fel trafodwch, disgrifiwch a dadansoddwch. Roedd pwyntiau bwled neu restrau digyswllt, nad oeddent yn dangos manylion gwybodaeth, yn golygu y gallai arholwyr ddyfarnu marciau yn y band gwaelod neu ganol yn unig. Gallai addysgu mwy eglur ynghylch dehongli ac ymateb i ferfau gorchmynnol, yn enwedig mewn cwestiynau ymateb estynedig, gefnogi dysgwyr gan eu galluogi i ennill marciau band uwch.

Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod dysgwyr yn gwneud defnydd da o'r astudiaeth achos i ateb cwestiynau yn rhan A o'r papur. Roedd y dysgwyr hynny sy'n defnyddio'r astudiaeth achos yn briodol yn gallu ennill amrywiaeth dda o farciau. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod nifer cynyddol o ddysgwyr yn dangos diffyg ffocws ar gynnwys yr astudiaeth achos ac roedd ymatebion o natur gyffredinol. Roedd hyn, fel yn y gyfres flaenorol, yn arbennig o amlwg mewn cwestiynau sy'n gysylltiedig ag oedran/person penodol. Er bod rhan B wedi'i ateb yn dda yn gyffredinol, unwaith eto fel yn y gyfres flaenorol, roedd rhai dysgwyr wedi seilio atebion yn seiliedig ar gynnwys yr astudiaeth achos yn hytrach na'r wybodaeth yn y cwestiynau. Arweiniodd hyn at golli cyfleoedd i ddangos dealltwriaeth ac ennill marciau band uwch ar gyfer ail hanner y papur.

Roedd rhai ymatebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig, neu ddim o gwbl, o sawl rhan o'r fanyleb. Nid oedd gan lawer o ddysgwyr wybodaeth mewn perthynas â darpariaeth barhaus a chwarae cydweithredol, a chollwyd marciau lle na wnaed unrhyw ymgais i ymateb.

© WJEC CBAC Ltd.2026

I gefnogi canlyniadau gwell i ddysgwyr mewn asesiadau yn y dyfodol, dylai canolfannau ystyried y strategaethau canlynol:

- **Mewnblannu Ymarferion Berfau Gorchmynnol**: Ymgorfforwch weithgareddau yn rheolaidd sy'n canolbwyntio ar ddehongli ac ymateb i wahanol ferfau gorchmynnol. Defnyddiwch gwestiynau cyn-bapurau i fodelu'r hyn sydd i'w ddisgwyl mewn ymateb "disgrifiwch" yn erbyn "amlinellwch".
- **Addysgu Sut i Ddadadeiladu Cwestiynau**: Helpwch ddysgwyr i rannu cwestiynau yn rhannau hawdd eu rheoli. Anogwch nhw i danlinellu termau allweddol ac i nodi beth mae pob cwestiwn yn ei ofyn mewn gwirionedd cyn iddyn nhw ddechrau ysgrifennu. Atgoffwch dysgwyr o bwysigrwydd darllen a chyfeirio at yr astudiaeth achos yn rhan A o'r papur. Gallai annog y defnydd o enwau neu deitlau swyddi mewn atebion hefyd gefnogi ffocws dysgwyr.
- **Atgyfnerthu Cynnwys Craidd**: Sicrhewch eich bod yn ailymweld â meysydd allweddol o'r fanyleb, megis mathau o chwarae a darparu, yn rheolaidd ac yn eu hasesu trwy fformatau amrywiol (cwisiau, astudiaethau achos, trafodaethau). Ymdrinnir â holl gynnwys y fanyleb yn y gwerslyfr lefel 2, e.e. darpariaeth barhaus. Gallai dysgwyr elwa o fynediad i'r gwerslyfr at ddibenion adolygu.
- **Ffug-arholiadau ac Adborth**: Cynhaliwch bapurau ymarfer wedi'u hamseru dan amodau arholiad, wedi'u dilyn gan sesiynau adborth manwl. Canolbwyntiwch ar y cynnwys a thechneg arholiad.

© WJEC CBAC Ltd.2026

GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI

Lefel 2

Haf 2026

UNED 216 DEALL GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT

Trosolwg o'r Uned

Yn dilyn y fformat asesu diwygiedig, roedd cwestiynau unwaith eto yn canolbwyntio ar Ddeilliannau 1 a 2 o'r fanyleb yn unig. Roedd yr asesiad yn parhau i fod yn gyson â chyfresi blaenorol o ran cynnwys a lefel y galw ac yn ymgorffori ystod lawn o fathau o gwestiynau. Cyflwynwyd astudiaeth achos i ddysgwyr ar ddechrau'r papur, ac yna Rhan A, a oedd yn cynnwys cwestiynau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r astudiaeth achos. Yna roedd Rhan B yn cynnwys cyfres o gwestiynau generig nad oeddent yn gysylltiedig â'r astudiaeth achos. Ar draws y ddwy adran, aseswyd ystod o ddeilliannau dysgu, ac roedd y berfau gorchmynnol a ddefnyddiwyd yn amrywiol ac yn unol â'r dull safonol ar gyfer y cymhwyster hwn.

Roedd mathau o gwestiynau yn cynnwys cwestiynau ateb byr, fel amlinellwch neu nodwch, ochr yn ochr â rhai berfau gorchmynnol sylfaenol ynghylch nodi lle roedd angen atebion un gair. Roedd rhai berfau gorchmynnol yn cynnig cyfle i ddysgwyr lefel uwch gyflwyno ymateb mwy manwl lle roedd yn ofynnol iddynt werthuso neu ystyried eu gwybodaeth.

Roedd cwestiynau dewis lluosog, lle roedd dysgwyr yn gallu clicio ar yr atebion cywir, yn rhoi cyfle i bob dysgwr ennill marciau gwerthfawr.

Er bod y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi gwneud rhywfaint o ymdrech i ateb y rhan fwyaf o gwestiynau, roedd rhai bylchau mewn gwybodaeth. Roedd rhai wedi gadael cwestiynau yn wag neu wedi mewnbynnu gwybodaeth anghywir. Costiodd hyn farciau gwerthfawr i ddysgwyr, er i'r arholwyr wneud defnydd da o'r canllawiau marcio cadarnhaol.

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

Rhan A

Cwestiwn 1 (a b) D.D. (1.5)

Roedd y ddwy ran o'r cwestiwn cyntaf hwn yn gysylltiedig â deilliant dysgu 1.5. mewn perthynas â chwarae cydweithredol. Datblygwyd llawer o ymatebion yn unol â gofynion band canol neu uwch lle roedden nhw wedi nodi gwybodaeth a dealltwriaeth dda neu dda iawn o chwarae cydweithredol yn 1a. Fodd bynnag, cyflwynodd rhai dysgwyr ymatebion yn seiliedig ar gamau eraill o ddatblygiad chwarae, er enghraifft chwarae unigol neu gyfochrog. Costiodd y gwall hwn farciau gwerthfawr i ddysgwyr yn y cam cynnar hwn o'r arholiad. Efallai y bydd canolfannau yn ei chael hi'n ddefnyddiol atgoffa dysgwyr o bwysigrwydd darllen yr astudiaeth achos a'r cwestiynau yn ofalus gan y gall gwybodaeth, fel oedran plentyn, fod yn berthnasol i'r ymateb sydd ei angen. Roedd rhan b, estyniad o ran a, yn cynnwys cwestiwn berf orchmynnol sylfaenol sy'n gofyn i ddysgwyr nodi 2 weithgaredd sy'n gysylltiedig â chwarae cydweithredol. Lle roedd dysgwyr wedi ymateb yn briodol i ran a o'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf yn gallu ennill y 2 farc llawn sydd ar gael yn rhan b. Cafodd marciau eu colli lle nad oedd ymatebion yn benodol i chwarae cydweithredol gyda rhai dysgwyr yn gadael y cwestiwn hwn yn wag.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cwestiwn 2 D.D. (2.1)

Cwestiwn tariff uwch, sy'n gofyn i ddysgwyr ddatblygu gwerthusiad sy'n nodi gwybodaeth a dealltwriaeth o sut y gallai rhyngweithio staff yn y cylch meithrin gefnogi datblygiad cyfannol Kim.

Parhaodd y dysgwyr mwy galluog i ganolbwyntio ar ofynion y cwestiwn hwn gan ennill marciau band canol i uwch. Rhoddodd rhai enghreifftiau ymarferol i gefnogi eu gwerthusiad, a oedd yn dangos dealltwriaeth fanwl o'r testun ac yn galluogi ar gyfer rhoi marciau bandiau uwch. Roedd rhai dysgwyr wedi colli ffocws ar eiriad y cwestiwn gan gyfeirio at Kim a'i brawd yn hytrach na staff, yn ôl gofyniad y cwestiwn. Dangoswyd dealltwriaeth dda o ddatblygiad cyfannol gan rai dysgwyr. Nid oedd hyn bob amser yn wir a chollwyd marciau lle nad oedd yr ystod lawn o feysydd datblygu wedi'u cynnwys. Unwaith eto, gall dysgwyr elwa o atgoffa i ddarllen gwybodaeth yn ofalus cyn dechrau eu hymateb.

Cwestiwn 3 (a b) D.D. (2.2 1.6)

Cwestiwn dwy ran er nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r un deilliant dysgu. Defnyddiwyd dwy ferf orchmynnol. Yn gyntaf, roedd rhan (a) yn gofyn am amlinelliad mewn perthynas â'r ymweliad â'r parc fel y nodwyd yn yr astudiaeth achos. Roedd cyfanswm o 4 marc ar gael, ac roedd llawer o ddysgwyr wedi datblygu ymateb priodol a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol yn seiliedig ar yr astudiaeth achos, gan gyfeirio at ddiogelwch, asesu risg, cyfleusterau newid cewynnau. Dangosodd y rhai sy'n cyfeirio at y cymeriadau yn yr astudiaeth achos well dealltwriaeth o'r ymateb angenrheidiol, er enghraifft soniodd llawer o ddysgwyr am gael caniatâd gan Bethan ar gyfer yr ymweliadau. Roedd y math hwn o ymateb yn galluogi arholwyr i roi marciau yn y band uchaf. Roedd rhai ymatebion yn generig, gan wneud cysylltiadau â grwpiau o blant o amrywiaeth o ystodau oedran. Collodd y dysgwyr hyn farciau. Cafodd marciau eu colli hefyd lle nad oedd cadw at y ferf orchmynnol a chyflwynodd dysgwyr restr, er bod arholwyr yn marcio'n gadarnhaol lle bo'n bosibl.

Roedd angen esboniad yn rhan b o'r cwestiwn hwn, gan alluogi dysgwyr i ennill hyd at 6 marc lle roedd gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o sut y gall canu rhigymau ac edrych ar lyfrau lluniau gefnogi datblygiad cyfannol. Dangoswyd rhywfaint o ddealltwriaeth gan y rhan fwyaf o ddysgwyr er bod hyn yn amrywio o ran manylion, a dyfarnwyd ystod o farciau. Cyflawnwyd marciau band uwch lle roedd dysgwyr wedi esbonio cysylltiadau â datblygiad cyfannol yn ei gyfanrwydd. Roedd rhai dysgwyr hefyd yn canolbwyntio ar yr astudiaeth achos ac yn dangos dealltwriaeth o oedran y plentyn a grybwyllwyd. Roedd hyn hefyd yn cefnogi marciau bandiau uwch. Collodd rhai dysgwyr farciau lle roedden nhw'n canolbwyntio naill ai ar ganu rhigymau neu edrych ar lyfrau lluniau mewn perthynas â datblygiad gwybyddol yn unig.

Gall dysgwyr elwa o nodyn atgoffa i ddefnyddio'r astudiaeth achos a darllen y cwestiwn yn drylwyr. Gall hyn eu helpu i barhau i ganolbwyntio ar yr oedran a'r cam datblygu gofynnol fel yr amlinellir yn y senario a gyflwynir. Gallai cyfeirio at enwau ac oedrannau cymeriadau hefyd gefnogi ymateb mwy rhesymegol.

Cwestiwn 4 (a b) D.D. (1.4 1.3)

Roedd y rhan gyntaf i'r cwestiwn hwn yn seiliedig ar gefnogaeth i ddatblygiad emosiynol Sion yn ystod cyfnod pontio. Enillodd y rhan fwyaf o ddysgwyr farciau ar draws yr ystod o fandiau lle dangoswyd rhywfaint o ddealltwriaeth. Ystyriodd rhai dysgwyr ymweld â'r cylch meithrin yn ogystal â nodi gweithgareddau pontio addas. Collwyd marciau lle methodd dysgwyr ag arsylwi cynnwys yr astudiaeth achos. Yn gyntaf, oedran Sion, yn ail, canolbwyntiodd rhai dysgwyr ar Bethan a Kim yn lle'r gwarchodwr plant yn ôl gofyniad y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Defnyddiwyd y strategaeth marcio cadarnhaol gan arholwyr yn Rhan (b) lle cyfarwyddwyd dysgwyr i nodi tair ffordd y gall y gwarchodwr plant ddiwallu anghenion datblygiad iaith Siôn orau wrth barod i fynychu'r cylch meithrin. Yn wreiddiol, yn ôl y cynllun marcio, roedd arholwyr yn chwilio am gysylltiadau â'r Gymraeg. Fodd bynnag, roedd llawer wedi nodi cefnogaeth gyffredinol i ddatblygu iaith. Pan oedd yr ymatebion hyn yn berthnasol i farciau oedran Sion, roedd hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr i ennill y 3 marc cyfan sydd ar gael.

Cwestiwn 5 D.D (1.1)

Cwestiwn annibynnol sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu trafodaeth ar draws ystod o 3 band, gan ganiatáu i ddysgwyr mwy galluog ennill hyd at 6 marc. Ychydig o ddysgwyr a ddangosodd ddealltwriaeth dda iawn o batrymau/cerrig milltir cyffredinol disgwyliedig Sion o ran datblygiad corfforol, gyda llawer o ddysgwyr yn diystyru oedran Sion ac yn nodi patrymau cyffredinol plant llawer iau neu hŷn. Collwyd rhai marciau hefyd lle cynigiodd dysgwyr restr yn hytrach na'r drafodaeth ofynnol. Caiff canolfannau eu hatgoffa mai ystod oedran y fanyleb yw 0 – 19 oed a gall yr arholiad gynnwys ystod lawn o gwestiynau yn seiliedig ar yr ystod hon.

Cwestiwn 6 (a b) D.D. (1.4 2.3)

Roedd llawer o ddysgwyr yn gallu cyflwyno amlinelliad da yn bodloni gofynion band canol gan ennill 2-3 marc. Roedd rhai dysgwyr yn gallu amlinellu profiad ymarferol gan wneud cysylltiadau clir â sut mae ymlyniad sicr yn cefnogi'r ffordd y mae Kim yn chwarae'n gydweithredol mewn grwpiau, meithrin perthnasoedd ac yn cydweithredu ag eraill. Rhoddwyd y 4 marc llawn o'r band uchaf i'r dysgwyr hyn.

Roedd angen ymateb yn ddadansoddol yn ail ran y cwestiwn, a oedd yn werth 6 marc. Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn gyda dim ond rhai dysgwyr yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth yn yr astudiaeth achos. Lle roedd dysgwyr wedi darllen y senario ac wedi cymryd agwedd resymegol at y cwestiwn yn seiliedig ar y drefn a ddarparwyd, enillwyd marciau mewn bandiau uwch. Collwyd marciau lle cyflwynodd dysgwyr ymateb yn seiliedig ar werth trefn, gan hepgor cyfeiriad at drefn Sion gyda'r gwarchodwr plant.

Unwaith eto, dylai canolfannau atgoffa dysgwyr i ddarllen cynnwys yr astudiaeth achos a chwestiynau'n ofalus cyn ymateb. Bydd hyn yn arbennig o fuddiol wrth symud ymlaen gyda fformat yr astudiaeth achos. Gall dysgwyr hefyd elwa o ddefnyddio profiad ymarferol i gefnogi'r dadansoddiad a'r cynnwys.

Rhan B

Cwestiwn 7 D.D. (1.2)

Roedd y cwestiwn cyntaf hwn yn adran generig y papur yn gofyn i ddysgwyr glicio ar yr atebion cywir o'r rhestr dewis lluosog. Enillodd y rhan fwyaf o ddysgwyr 4 marc llawn lle dewiswyd y 4 patrwm cywir o ddatblygiad deallusol. Collodd rhai dysgwyr y cyfle i ennill 4 marc a oedd yn hawdd i'w cael drwy wneud dewisiadau anghywir megis clyw neu golwg. Pan fo'r math hwn o gwestiwn yn gofyn i ddysgwyr wneud dewis a chlicio ar atebion, gallai canolfannau atgoffa dysgwyr i wirio eu hymatebion cyn symud ymlaen.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cwestiwn 8 (a b) D.D. (2.3 1.4)

Cwestiwn dwy ran yn seiliedig ar 2 ddeilliant dysgu gwahanol. Roedd rhan A y cwestiwn hwn, o ddeilliant dysgu 2.3, yn defnyddio'r ferf orchmynnol aseswch. Cwestiwn 6 marc, roedd angen i ddysgwyr asesu mantais darpariaeth ysgol statudol i blant 3-18 oed. Er bod rhai dysgwyr wedi cydnabod y newid i gwestiynau generig ac yn gallu canolbwyntio ar y newid yn y grŵp oedran gan eu bod yn symud i ffwrdd o'r astudiaethau achos, roedd rhai dysgwyr yn parhau i ganolbwyntio ar Sion a Kim, gan gyfyngu ar y marciau a roddwyd. Datblygodd y rhan fwyaf o ddysgwyr ymateb yn unol â gofynion y band canol gan fod tystiolaeth o ddeall y grŵp oedran uwch yn gyfyngedig.

Roedd y cwestiwn tariff is hwn, i fodloni deilliant 1.4, a oedd yn defnyddio'r ferf orchmynnol nodwch, yn heriol i'r rhan fwyaf o ddysgwyr. Roedd rhai wedi gwneud prin dim ymdrech neu ddim o gwbl i ymateb yma, tra nad oedd eraill yn gallu ateb mewn perthynas ag Anhwylder Ymlyniad Ymatebol (RAD) gan gyfeirio yn hytrach at Theori Ymlyniad. Unwaith eto, roedd yn amlwg bod rhai dysgwyr yn dal i gyfeirio at gynnwys yr astudiaeth achos. Gellid gweld hyn lle roedd dysgwyr wedi nodi cysylltiadau rhwng theori ymlyniad a pherthynas Kim â'r gweithiwr allweddol. Ar ôl trafodaeth yn y gynhadledd, defnyddiodd arholwyr y canllawiau marcio cadarnhaol gan ddyfarnu marciau lle bo hynny'n bosibl, er enghraifft, pan oedd dysgwyr yn cyfeirio at grio neu sgrechian ystyriwyd bod hyn yn gywir yn seiliedig ar y cynllun marcio, a oedd yn nodi problemau ymddygiad neu ymddygiad ffrwydrol a strancio. Fodd bynnag, collwyd marciau lle nad oedd dealltwriaeth glir rhwng RAD a theori ymlyniad yn cael ei ddangos.

Caiff canolfannau eu hatgoffa, er bod deilliannau dysgu bellach wedi'u lleihau, mae ystod oedran a chynnwys llawn y fanyleb yn parhau i gael eu defnyddio. Hefyd, gall dysgwyr elwa o'u hatgoffa o'r newid o Ran A i Ran B lle nad yw'r astudiaeth achos yn cael ei defnyddio mwyach.

Cwestiwn 9 (a b) D.D. (2.2 2.1)

Roedd 4 marc ar gael yn Rhan A a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr grynhoi ystyr y term darpariaeth barhaus. Roedd rhai dysgwyr yn gallu datblygu crynodeb sylfaenol/da yn seiliedig ar amgylchedd diogel y rhoddwyd marciau o'r 2 fand cyntaf. Roedd llawer o ddysgwyr wedi canolbwyntio ar ddiogelu gan ddangos diffyg dealltwriaeth a gwybodaeth am ddarpariaeth barhaus. Collwyd marciau yn yr ymatebion hynny.

Rhoddwyd cynigion ar ran b y cwestiwn gan fwyafrif y dysgwyr. Roedd rhai o'r cynigion hyn yn dda iawn gan ganiatáu i ddysgwyr gyrraedd y band marciau uwch. Roedd y dysgwyr hyn wedi dilyn dull rhesymegol at y cwestiwn ac wedi cyflwyno tystiolaeth yn seiliedig ar bob agwedd ar ddatblygiad cyfannol sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd yn y cwestiwn.

Efallai y bydd canolfannau yn ei chael hi'n ddefnyddiol atgoffa dysgwyr i edrych allan am eiriau allweddol. Er enghraifft, lle mae'r gair cyfannol yn y cwestiwn, gellir rhoi marciau yn y band marciau uwch os yw dysgwyr yn ystyried pob agwedd.

Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol

- Atgoffir canolfannau o bwysigrwydd y geiriad a ddefnyddir mewn cwestiynau. Dylid annog dysgwyr i ddarllen gofynion cwestiynau yn ofalus a chymhwyso'r cyfarwyddiadau yn unol â hynny. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r fformat newydd.
- Anogir canolfannau i ddarllen adborth unigol ar gwestiynau. Gall hyn gefnogi ymgeiswyr yn y dyfodol. Mae pob ymateb cwestiwn unigol uchod yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer symud ymlaen, efallai y bydd canolfannau yn gweld hyn yn ddefnyddiol ar gyfer arholiadau yn y dyfodol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

- Gall canolfannau ystyried datblygu'r defnydd o ferfau gorchmynnol ymhellach. Mae dysgwyr yn dal i golli marciau gwerthfawr lle nad yw berfau gorchmynnol yn cael eu dilyn yn briodol e.e. nid rhestr yw amlinelliad.
- Caiff canolfannau eu hatgoffa bod cwestiynau wedi'u hysgrifennu yn unol â'r fanyleb a gellir cymryd cwestiynau o bob rhan o'r ystod o gynnwys.
- Gall dysgwyr elwa ar adolygu terminoleg/geirfa.
- Gall dysgwyr elwa o gyfarwyddyd clir ar fformat y papur arholiad. Mae Rhan A yn ymwneud â'r astudiaeth achos tra bod Rhan B yn cynnwys cwestiynau generig.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Eich cefnogi chi

Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 029 2240 4264
E-bost: GChDDP@cbac.co.uk
Tudalen we'r cymhwyster: Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda dros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.2026

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.2026